**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad:** 13 Ebrill 2000

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

# Teitl: Arolwg Gwaelodlin Cyfle Cyfartal

## 1. Mater

Ystyried adroddiad ar gynnydd, ar ôl gorffen Cam 1 o'r arolwg gwaelodlin a fu'n rhan o'r rhaglen waith Cyfleoedd Cyfartal (SF 99-00445 yn cyfeirio). Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r darganfyddiadau ar ôl y cam cyntaf hwn.

Nid yw'r darganfyddiadau wedi eu cyflwyno i uwch reolwyr y Cynulliad ond byddant yn cael eu hystyried ganddynt yn eu cyfarfod nesaf ar 5 Mai 2000.

### 2. Cyflwyniad

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 1999, cadarnhaodd y Pwyllgor Sefydlog ar Gyfle Cyfartal bapur a oedd yn argymell mynd ati mewn pedwar cam er mwyn ceisio rhoi cychwyn ar sicrhau lle canolog i gydraddoldeb yn y Cynulliad:

Cam 1 – Cyfweliadau gwaelodlin ag adrannau polisi i gadarnhau i ba raddau y bydd hil, gender ac anabledd yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu polisïau; pa amcanion a thargedau sydd â dimensiwn cyfleoedd cyfartal iddynt; a pha ddata anagregedig sydd ar gael ar gyfer monitro canlyniadau'r polisïau hynny.

Cam 2 – Bydd pob Ysgrifennydd Cynulliad yn cael adroddiad ar gyfleoedd cyfartal gan yr adrannau 'polisi' sy'n gysylltiedig â'i briod feysydd a bydd yn ei gyflwyno i'r pwyllgor pwnc perthnasol. Bydd yr adroddiad yn nodi'n gryno'r sefyllfa waelodlin a'r blaenoriaethau arfaethedig o ran gweithredu. Gallai'r gweithredu gynnwys mynd i'r afael â diffygion o ran gwybodaeth; gwell trefniadau ar gyfer cynnwys cyrff ethnig lleiafrifol, grwpiau anabledd a menywod yn y gwaith o ddatblygu polisi; a meysydd penodol lle y mae modd pennu amcanion a thargedau ar gyfer unioni anghydbwysedd. Yn achos personél a swyddogaethau canolog eraill, bydd yr adroddiad yn mynd i'r Ysgrifennydd Cyllid a fydd (ar ôl i'r Prif Ysgrifennydd gytuno i hynny) yn adrodd yn uniongyrchol i'r pwyllgor cyfleoedd cyfartal.

Cam 3 – Bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystyried y dadansoddiad gwaelodlin, adroddiadau'r Ysgrifenyddion Cynulliad a'r trafodaethau dilynol gan y pwyllgorau pwnc. Bydd yn cynnig sylwadau a chyngor yngln â'r camau, yr amcanion a'r targedau arfaethedig ar sail y darlun cyffredinol a'r blaenoriaethau.

Cam 4 – Bydd yr Ysgrifenyddion Cynulliad yn cymeradwyo cynlluniau gweithredu pendant ar gyfer eu priod feysydd. Caiff y rhain eu cynnwys yn adroddiad blynyddol cyntaf y Cynulliad a'i raglen weithredu ar gyfer cyfleoedd cyfartal. Bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn adolygu'r adroddiad hwn cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad i'w drafod.

**1. Arolwg Gwaelodlin – Nodau**

Fel cam cyntaf at ddeall sefyllfa bresennol y Cynulliad mewn cysylltiad â chyfle cyfartal, tasg Cam 1, fel y'i nodir uchod, oedd ymgymryd ag arolwg er mwyn cadarnhau sefyllfa waelodlin yngln ag i ba raddau y mae materion cyfleoedd cyfartal yn cael eu nodi a'u monitro, a mynd i'r afael â hwy, ac er mwyn mesur lefel yr wybodaeth a'r ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal o fewn Adrannau'r Cynulliad.

dyfodol.Mae'r papur hwn yn mynd i'r afael â'r nod hwn, ac, ar ben hynny, yn mynegi barn am y meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu, a allai fod yn elfen o raglen waith y Pwyllgor yn y

**2. Y Fethodoleg a'r Broses**

**Methodoleg**

Cytunwyd ar y fethodoleg ar gyfer yr arolwg yng Nghyfarfod y Cyfarwyddwyr Grwpiau ym mis Hydref 1999.

Digwyddodd y cyfweliadau lled-strwythuredig â'r 57 grp/is-adran/uned rhwng mis Hydref 1999 a dechrau mis Rhagfyr 1999. Bu dadansoddi a chofnodi ar y cyfweliadau rhwng mis Rhagfyr 1999 a mis Mawrth 2000 a dyna ddarparu adroddiad ar y dadansoddi ar gyfer pob Adran unigol. Cafodd asesiad annibynnol o'r adroddiadau ar y dadansoddi ei gwblhau yn gynnar ym mis Ebrill.

Cafodd yr asesiad annibynnol ei gynnal gan ymgynghorwyr cydraddoldeb y Pwyllgor (y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal ac Anabledd Cymru) ac mae'n darparu ar gyfer pob adran safle cydberthynol, wedi'i gymedroli (o anwybodaeth i ragoriaeth) ar gyfer y pum maen prawf unigol (nodau Busnes, ymrwymiad ar y Lefel Uchaf, Monitro, Hyfforddi, Ymgynghori) a ddiffinnir ymhellach yn y ffurflen yn Atodiad A.

Mae'r asesiadau o'r Is-adrannau unigol wedi'u defnyddio i ddarlunio sefyllfa'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd ac mae'r manylion hyn i'w cael ar ffurf siart yn Atodiad B er gwybodaeth.

Mae'r asesiad yn awgrymu bod ymwybyddiaeth yn y Cynulliad am faterion cydraddoldeb yn gyson uchel a bod llawer o arferion da. Yn aml, mae'r arferion da hyn ymhlyg yn hytrach nag yn echblyg. Yn

ogystal, cydnabyddir bod y safleoedd wedi'u penderfynu ar sail gyfartalog. At ei gilydd, mae'n darparu sylfaen dda i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd ei defnyddio i ymgyrraedd at y camau nesaf.

**Proses**

Ceir crynodeb o'r broses hyd yn hyn ynghyd â'r dyddiadau cwblhau a'r tasgau sydd ar ôl gyda'r dyddiadau y disgwylir iddynt gael eu cwblhau yn Nhabl 1 isod:

| TASG | DYDDIAD CWBLHAU |
|---|---|
| **Cam 1** | |
| Cyflwyno Cynnig ar gyfer Arolwg i Gyfarfod y Cyfarwyddwyr Grwpiau | Hydref 1999 |
| Cyfarfod y Cyfarwyddwyr Grwpiau yn Cytuno ar Fethodoleg a Phroses | Hydref 1999 |
| Cynnal Cyfweliadau | Rhagfyr 1999 |
| Dechrau Dadansoddi | Rhagfyr 1999 |
| Gorffen Dadansoddi | Mawrth 2000 |
| Is-adrannau'n cytuno â Chanlyniadau'r Dadansoddi | Ebrill 2000 |
| Cwblhau'r Asesiad Annibynnol | Ebrill 2000 |
| Cyflwyniad gerbron y Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal | Ebrill 2000 |
| Cyflwyniad gerbron Cyfarfod y Cyfarwyddwyr Grwpiau | Mai 2000 |
| **Cam 2** | |
| Trafodaethau'r Cyfarwyddwyr Grwpiau (yn Arwain at ystyriaeth o'r Cynllun Gweithredu gan y Pwyllgorau Pwnc) | Mai 2000 |
| **Cam 3** | |
| Trafodaethau'r Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal | Mai 2000 |
| **Cam 4** | |

| | |
|---|---|
| Cynlluniau Gweithredu’r Pwyllgorau Pwnc | Mehefin 2000 |
| Trafodaethau’r Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal | Mehefin 2000 |
| Adroddiad Blynyddol / Dadl gan y Cynulliad | Mehefin 2000 |

**Tabl 1 – Tasgau Arolwg**

## 5. Canlyniadau a Chasgliadau Dechreuol

Mae’r rhan fwyaf o’r darganfyddiadau a’r casgliadau yn gyffredin i nifer o Adrannau. Er enghraifft, o ganlyniad i ddarganfyddiadau’r ymgynghori, yr ydym yn annog datblygu pellach ar ddeialog rhwng grwpiau / cymunedau sydd o dan anfantais ac adrannau polisi, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar hil, anabledd a gender. Cyfrifoldeb yr Is-drannau yw ystyried a fyddai’n well cynnal y deialog hwn ar lefel yr is-adrannau ynteu a fyddai cysylltiadau ar lefel y grwpiau yn helpu i ddarparu gwell gorolwg. Yn ogystal, mae’n glir bod angen i bawb yn y Cynulliad fod yn weithredol gyfrifol am gydraddoldeb yn eu priod feysydd eu hunain, ac i ddeall yr angen am weithredu parhaus i sefydlu cydraddoldeb (yn ganolog) yn ei fusnes a’i swyddogaethau.

Mae crynodeb o’r prif ganlyniadau a golwg ar y meysydd dros dro y gellir ystyried gweithredu yn eu cylch fel a ganlyn:

### Cyfrifoldeb

Barnwyd a derbyniwyd yn gyffredinol mai cyfrifoldeb pob unigolyn oedd cydraddoldeb a’i bod yn allweddol bwysig derbyn y cyfrifoldeb hwn a mynd â chydraddoldeb yn ei flaen yn bositif fel y bydd y Cynulliad yn cael symud yn ei flaen mewn modd cynaliadwy wrth sefydlu cydraddoldeb yn ganolog yn ei waith. Awgrymodd y rhan fwyaf o’r rhai a gyfwelwyd fod angen i’r dulliau ar gyfer datblygu polisïau ystyred materion sy’n ymwneud â chydraddoldeb. Er enghraifft, barnwyd y gallai negeseuon a roddir yn ganllawiau i gyrff allanol, megis Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, ddylanwadu ar eu dulliau ar gyfer mynd i’r afael â’u cyfrifoldebau a’r flaenoriaeth y byddant yn ei rhoi i gyfle cyfartal.

**Mae’n ymddangos bod gan Is-adrannau Noddi rôl fonitro a allai helpu’r broses ganologi ehangach. Mae angen i’r Is-adrannau hyn ystyried y cyfrifoldeb hwn yn ofalus ac archwilio’r gwahanol gwestiynau sy’n gysylltiedig â’u hagwedd at gyfle cyfartal. Dylai’r rheini sydd wedi gwneud hyn eisoes lynu at yr agwedd bositif iawn o ddefnyddio profiadau y maent wedi’u cael yn y gorffennol i ddatblygu hyn ymhellach.**

### Cyfeiriadau

Ar hyn o bryd, mae cyfeiriadau at gydraddoldeb mewn dogfennau megis Cynlluniau Is-adrannau a Chynlluniau Canghennau ymhlyg ym mwyafrif llethol yr achosion. Er hynny, barnwyd yn gyffredinol fod hwn yn faes y gellid gwella arno ac a gâi ei ystyried ymhellach.

**Dylid ystyried cynnwys cyfeiriadau mwy echblygyng ngwaith beunyddiol yr Is-adran, ei blaenoriaethau, ei nodau a'i hamcanion drwy fecanweithiau megis cynlluniau Is-adrannau a chynlluniau canghennau a dogfennau perthnasol eraill y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt neu'n dylanwadu arnynt.**

**Dylanwad**

**Yr oedd y rhan fwyaf o'r Is-adrannau, gan gynnwys y rheini heb friff polisi uniongyrchol, yn derbyn y gallent, drwy eu gweithredoedd a'r cysylltiad sydd rhyngddynt ac eraill, ddylanwadu naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y ffordd y caiff ymwybyddiaeth am gydraddoldeb ei chodi ac, o ganlyniad i hynny, y byddai materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn cael eu hystyried yn well.**
**Mae angen i'r Is-adrannau fod yn flaenweithgar wrth sicrhau bod y cyrff allanol a'r Is-adrannau mewnol y maent yn gyfrifol amdanynt neu'n dylanwadu arnynt yn ceisio sefydlu cydraddoldeb yn ganolog yn eu gwaith. Dylai datblygu dangosyddion perfformiad penodol a mecanweithiau mesur helpu'r broses hon.**

**Recriwtio**

**Yr oedd llawer o'r adrannau o'r farn bod rhoi rhan iddynt yn y broses recriwtio yn elfen hanfodol o ran mynd â chydraddoldeb yn ei flaen yn y Cynulliad. Drwy recriwtio at anghenion penodol, gellid creu mwy o gyfleoedd ar gyfer pobl na fyddent, fel arall, yn gymwys ar gyfer penododiadau cyffredinol. Yr oedd nifer o'r Adrannau yn credu'n gryf, er gwaethaf ystyriaethau cydraddoldeb, y gellid gwella'r gweithdrefnau a'r arferion presennol er mwyn bodloni eu gofynion staffio penodol. Rhaid i unrhyw drefniant sy'n rhoi i'r**

Is-adrannau fwy o gyfrifoldeb uniongyrchol dros recriwtio allanol fod â rheolau sylfaenol gorfodadwy clir yn gysylltiedig ag ef, gan gynnwys rheolau i sicrhau cyfle cyfartal. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth a chanllawiau allanol mewn unrhyw broses adolygu.
**Mae'n bosibl y bydd rhaid ystyried adolygiad o'r arferion a gweithdrefnau recriwtio sy'n bod eisoes.**

**Ymrwymiad ar y Lefel Uchaf**

Y farn a leisiwyd gan bron pob Is-adran oedd bod ymrwymiad ar y lefel uchaf ond, yn ogystal, dywedodd y rhan fwyaf o'r Is-adrannau y gellid gwella'r modd y mynegir yr ymrwymiad hwn, ac y dylid gwneud hynny.
**Mae angen i staff ar bob lefel nodi'r neges hon a dangos yr ymrwymiad hwn yn well drwy eu gweithredoedd pan fo hynny'n bosibl. Mae angen dangos yn fwy gweladwy ac yn fwy ymarferol yr ymrwymiad o du rheolwyr ar y lefel uchaf.**

**Cyfarfodydd/Cyflwyniadau**

Cafodd yr angen am gadw cydraddoldeb mewn cof ym mhob agwedd ar waith beunyddiol y Cynulliad

ei dderbyn yn gyffredinol fel dull o weithredu yr oedd angen i'r Cynulliad fynd ag ef yn ei flaen. Lleisiwyd pryder yngln â pherthnasedd a phriodoldeb hyn mewn rhai meysydd.
**Er nad yw'n berthnasol i bob Is-adran, dylid rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd is-adrannoau os bydd hynny'n briodol. Ar ben hynny, dylai cyflwyniadau gynnwys, lle bynnag y bo'n briodol, fodd i wirio bod cydraddoldeb wedi'i gymryd i ystyriaeth.**

## Monitro

At ei gilydd, yr oedd y rhan fwyaf o'r Is-adrannau'n barnu nad yw monitro cyfleoedd cyfartal wedi'i ddatblygu'n ddigonol o fewn y Cynulliad. Er y derbynnir y gall monitro effeithiau polisïau cydraddoldeb fod yn anodd, nodwyd, hefyd, fod angen mecanweithiau monitro a **gwerthuso** effeithiol er mwyn i'r Cynulliad wneud unrhyw wir wahaniaeth yn y maes hwn. Bernir y bydd monitro effeithiol yn helpu i wneud dewisiadau a phenderfyniadau cadarn a chytbwys hefyd.
**Gan hynny, mae angen penodol i bob Is-adran ystyried sut y gellid defnyddio cynlluniau monitro er mwyn mesur effeithiau polisi ar sectorau gwahanol. Lle y bo hynny'n briodol, dylai Is-adrannau fod yn flaenweithgar wrth ddatblygu systemau monitro cydraddoldeb gyda phartner-gyrff ac Is-adrannau eraill. Gallai hyn gynnwys datblygu polisi, cyflwyno gwasanaethau, a'n harferion cyflogaeth ein hunain.**

## Hyfforddi

Yr oedd bron pob Is-adran o'r farn bod angen mwy o hyfforddiant yn y Cynulliad o safbwynr ymwybyddiaeth am gydraddoldeb, hyd yn oed ar gyfer y rheini sy'n honni nad oes arnynt 'mo'i angen. Lleisiwyd yn glir iawn y farn y byddai hyfforddiant ac addysg briodol a pherthnasol ar nifer o ffurfiau yn fuddiol. Ni fernir mai'r dulliau hyfforddi traddodiadol yw'r mwyaf priodol. Awgrymwyd y dylid ystyried dulliau arloesol o fodloni'r anghenion hyn, a hynny ar fyrder. Gallai hyn gynnwys syniadau sy'n gysylltiadau â thechnoleg newydd, megis pecynnau cyfrifiadurol rhyngweithiol, a dylai'r Cynulliad fod yn flaenweithgar wrth fynd â hwy yn eu blaen. Cafwyd barn gytûn y dylid cynnwys hyfforddiant ar ymwybyddiaeth am gydraddoldeb mewn cynlluniau Hyfforddi a Datblygu Is-adrannau.
**Dylid annog staff i ddatblygu drwy ymestyn yr hyfforddiant a'r cyfarwyddyd a gynigir ar ymwybyddiaeth am gydraddoldeb. Dylid ystyried a ddylai'r hyfforddiant hwn fod ar sail orfodol ac a ddylid rhoi mwy o le iddo yn y broses ymsefydlu.**

## Ymgynghori

Yr oedd bron pob Is-adran yn derbyn y dylid cynnal mwy o ddeialog â gwahanol gymunedau er mwyn sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried wrth lunio polisi a chanllawiau. Deellwyd bod hwn yn gam pwysig at lunio polisi a chanllawiau cytbwys ar gyfer pobl Cymru. Naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mae'r rhan fwyaf o'r is-adrannau yn gallu monitro a hybu'r broses hon. Er enghraifft, yn y lle cyntaf, mae modd sefydlu deialog â chymunedau lleiafrifoedd ethnig drwy Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan; ar gyfer grwpiau 'gender', mae trafodaethau wedi dechrau â Chlymblaid Genedlaethol Menywod Cymru ac, ar gyfer Anabledd, mae trafodaethau'n cael eu cynnal ag Anabledd Cymru.
**Mae angen adolygu'r prosesau ymgynghori presennol er mwyn sicrhau bod deialog ystyrlon o'r**

**cychwyn cyntaf gyda grwpiau cydraddoldeb wrth ddatblygu polisi, ac yn arbennig felly grwpiau pobl anabl a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Gall yr Uned Polisi Cydraddoldeb helpu i hwyluso'r broses hon.**

## 6. Y Camau Nesaf

Fel y cam nesaf yn yr ymarfer hwn, fel y'i hamlinellir yng ngham 2 uchod, bydd Cyfarwyddwr pob Grp yn cyflwyno adroddiad ar lefel y grwpiau i'r Ysgrifennydd Cynulliad priodol, gan grynhoi'r sefyllfa bresennol; nodi meysydd blaenoriaethol lle y bydd yn dra phwysig dal sylw ar gyfle cyfartal; a chynnig gweithrediadau a thargedau penodol y bydd y grwp yn ceisio'u gweithredu a'u cyflawni. Wedyn, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn gallu cynnwys yr adroddiad fel rhan o'i adroddiad rheolaidd i'r pwyllgor pwnc, a fydd yn rhoi cyfle i'r pwyllgor pwnc ofyn cwestiynau neu wneud awgrymiadau.

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y Cynulliad adrodd yn flynyddol am y cynnydd a wnaed o ran hybu cyfle cyfartal. Er mwyn i ni gyflawni'r ddyletswydd hon a chyhoeddi cynllun gweithredu cyffredinol ar gyfer pen-blwydd cyntaf y Cynulliad, mae'n hanfodol bod yr adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Ysgrifenyddion Cynulliad cyn diwedd mis Mai.

Mae dau ddiben i'r adroddiad ar lefel y grwpiau: darparu sail ar gyfer trafodaeth, â'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn gyntaf ac wedyn gyda'r pwyllgor pwnc, er mwyn cael cymeradwyaeth wleidyddol ar gyfer y prif gynigion ar gyfer gweithredu; a darparu sail i'r Uned Polisi Cydraddoldeb ddechrau llunio adroddiad blynyddol y Cynulliad ar gyfle cyfartal. Bydd yr adroddiad ar lefel y grwpiau yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau mwyaf ond dylid mynd â'r rhain a'r pwyntiau gweithredu manylach yng nghynllun pob is-adran. Dichon na fydd rhaid i'r cynllun gweithredu fod yn ddogfen ar wahân ar gyfer cyfleoedd cyfartal ond dylid integreiddio'r camau angenrheidiol yng nghynllunio busnes arferol pob Is-adran.

## 7.Casgliadau

Mae'n naturiol bod darganfyddiadau'r arolwg yn oddrychol i ryw raddau. Ni ddylid gweld bod hynny'n lleihau ar ddilysrwydd yr arolwg na'i amcan, sef cael man cychwyn ac yna sicrhau bod y Cynulliad yn symud yn ei flaen. Cydnabyddir y gall pob grwp/adran nodi blaenoriaethau gwahanol, gan eu bod yn gwybod eu hamcanion busnes yn fanylach o lawer, ac, yn wir, y byddant yn gallu dyfeisio cynigion manylach o lawer. Yr hyn sy'n bwysig yw nodi blaenoriaethau – wedi'u seilio, lle bynnag y bo modd, ar farn y rheini sy'n cynrychioli grwpiau neu gymunedau sydd o dan anfantais – ac ymrwymiad i gyflwyno pa gamau neu dargedau bynnag a nodir. Digon posibl y bydd

Is-adrannau/Grwpiau yn nodi angen am gyngor neu gymorth ymarferol gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb er mwyn mynd ar ôl pwynt gweithredu penodol.

Yr oedd adroddiad (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1999) ar arolwg o gyfle cyfartal yn y gwasanaeth sifil (Adroddiad Schneider-Ross) yn feirniadol iawn o arferion y gwasanaeth sifil mewn cysylltiad â chyfle cyfartal. Cyflwynodd yr adroddiad ddarlun digalon iawn o sefydliad â diwylliant cynhenid a oedd

yn drwm o dan ddylanwad dynion gwyn canol-oed, nad oedd ganddynt fawr o ddealltwriaeth o gydraddoldeb, os oeddynt yn ei ddeall o gwbl, er gwaethaf haeriadau'r gwasanaeth sifil yngln â bod yn gyflogwr da o ran cyfleoedd cyfartal. Byddai'n ymddangos bod darganfyddiadau a chanlyniadau'r arolwg yn cadarnhau, yn achos y Cynulliad, er bod ymwybyddiaeth sylweddol am faterion cydraddoldeb, fod angen gwneud mwy er mwyn symud ymlaen i sicrhau gwell dealltwriaeth ac, yn y pen draw, rhagoriaeth.

Mae'r arolwg hwn, yn ystod blwyddyn weithredol gyntaf y Cynulliad, yn un pwysig ac amserol gan y bydd rhaid i'r Cynulliad ddarparu arweiniad clir wrth sefydlu cydraddoldeb yn rhan ganolog o ddatblygu polisi. Mae'n debyg y bydd dull y Cynulliad o fynd ati i wneud hyn yn ennyn cryn ddiddordeb. Mae'n gwbl angenrheidiol, yn gyfreithiol, fynd â chwestiynau am gydraddoldeb yn eu blaen o gofio'r rheidrwydd i roi sylw dyladwy i gydraddoldeb ym musnes a swyddogaethau'r Cynulliad, o dan adrannau 48 a 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, a deddfwriaeth debygol newydd y DU a gynigir fel rhan o'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (diwygio) sy'n ei gwneud yn ddyletswydd ar bob corff cyhoeddus hybu cydraddoldeb, gan gychwyn â chydraddoldeb hil. Ar ben hynny, mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi rhoi ymrwymiad cadarn i fynd â chydraddoldeb yn ei flaen yn ei raglen ar gyfer cyflwyno "Gwell Llywodraeth" yng Nghymru, sydd â "chynnwys cydraddoldeb yn ein holl bolisïau a'n harferion" yn un o'i themâu. Drwy gymorth mentrau megis Gwell Llywodraeth, os gall y Cynulliad gynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn ei ddulliau ar gyfer datblygu a gweithredu polisi, a hynny mewn modd echblyg, gan wneud hynny'n rhan annatod o'n cynllunio a monitro busnes (canologi), bydd gan y Cynulliad system sy'n haws i bob Is-adran (dim cynlluniau cyfleoedd cyfartal atodol) ac yn fwy effeithiol o ran hybu cyfle cyfartal a chynwysoldeb.

Nid tasg fach 'mo canologi cydraddoldeb, am ei bod yn ymwneud yn sylfaenol â newid gwerthoedd, credoau ac agweddau unigolion a, thrwy hynny, newid diwylliant sefydliad. Awgrymir bod modd cyflawni hyn drwy weithredu'n ymarferol. Nid yw'r arolwg cyntaf hwn gan y Cynulliad ar gydraddoldeb i asesu sefyllfa bresennol y Cynulliad ond yn fan cychwyn, a bydd rhaid gweithredu'n ymarferol yn sgil hyn.

Mae hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth yn allweddol mor gynnar â hyn yn y broses. Mae hwn yn faes y mae angen edrych arno ar fyrder oherwydd bernir ei bod yn annhebygol y byddai dulliau hyfforddi confensiynol yn sicrhau'r newidiadau i werthoedd a chredoau y mae ar y Cynulliad eu hangen er mwyn canologi cydraddoldeb. Digon posibl y bydd hon yn dasg y gall yr Uned Polisi Cydraddoldeb roi blaenoriaeth iddi yn ystod y flwyddyn sy'n dod er mwyn helpu i ddyfeisio dulliau arloesol o fynd ati i gynyddu ymwybyddiaeth am gydraddoldeb

Mae canlyniad ymarferol i'r gwaith a wnaed hyd yn hyn yn gysylltiedig â'r hyn a gyflawnwyd eisoes drwy ymgymryd â'r ymarfer hwn. Mae canlyniad y cyfweliadau lled-strwythuredig a gynhaliwyd wedi bod yn arwyddocaol wrth gynyddu ymwybyddiaeth am gydraddoldeb ym mhob un o'r Is-adrannau a gyfwelwyd. Mae'n anodd cyfrif a mesur hyn yn nhermau ei union effeithiau ond mae modd mesur y galw parhaus a chynyddol ar yr Uned Polisi Cydraddoldeb gan Is-adrannau am ganllawiau a chyngor yngln â chwestiynau am gydraddoldeb.

Un ffaith bositif olaf y mae angen ei chydnabod yw'r arferion da sydd eisoes yn bod mewn nifer o

feysydd (a hynny, yn aml, heb ei amlygu) a’r Is-adrannau o fewn y Cynulliad. Yn ogystal â pharodrwydd i fynd â chydraddoldeb yn ei flaen. Mae’r agweddau cadarnhaol hyn yn argoeli’n dda at y dyfodol ond bellach bydd angen ychwanegu at y gwaelodlin drwy weithredu’n ymarferol os yw’r Cynulliad i ragori ym maes cydraddoldeb.

Charles Willie

Uned Polisi Cydraddoldeb
11 Ebrill 2000